YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1892. [RHIF 54

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

BETH YW CRIST I NI?

"Am hyny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith? Yna Simon Petr a'i hatebodd ef, Arglwydd, at bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau y bywyd tragwyddol."

AM rai Suliau yn y gorphenol y mae amgylchiadau wedi fy lluddias i sylwi a siarad wrthych chwi, fel y dymunwn wneyd, ar bwnc gafodd ei drafod yn y Gynnadledd Genedlaethol yn Llundain, a'r hwn wedi hyny sydd wedi bod dan sylw neillduol, a chael ei ddadleu yn y papyrau enwadol. Golygwn y safle sydd yn cael ei ddal gan Iesu Grist yn ein pregethiad a'n bywyd crefyddol yn gyffredinol.

Gellwch ddysgwyl yn rhesymol oddiwrth eich gweinidog ddatganiad clir ar y fath gwestiwn, oblegyd os nad wyf yn camddeall arwyddion yr amserau, y mae hwn yn un o'r cwestiynau crefyddol mwyaf pwysig yn y dyfodol uniongyrchol.

Un o'r dygwyddiadau mwyaf arwyddocaol sydd wedi bod yn y byd crefyddol yw y dyddordeb rhyfeddol sydd wedi cael ei gymmeryd yn y *Bampton Lectures*, yn Rhydychain, ar yr "Ymgnawdoliad." Ni chymmeraf arnaf i ddadleu a beirniadu y Ddarlith hono mewn unrhyw ffordd, oblegyd nid yw etto wedi ei chyhoeddi. Ond y mae hyd y nod y ffaith fod gosodiad radicalaidd newydd o'r athrawiaeth wedi ei gael allan ei bod yn angenrheidiol, ac er ei gwneyd yn angenrheidiol y buasai meddylddrychau diweddar yn cael eu cydnabod yn rhydd, ac iddi greu y fath ddyddordeb yn Rhydychain o bob lle yn y byd, y mae hyny i mi yn un o'r ffeithiau mwyaf addysgiadol ac annogaethol—ffaith y gellir ei gosod allan yn erbyn y gosodiad mynych fod dydd y dadleu wedi pasio.

Bydd i Dduwinyddiaeth—gwyddor Duw—fyw cyhyd ag y byddo dynion yn credu mewn Duw, a chyhyd ag y byddont yn credu ynddo Ef y byddant i'w wneyd eu hamcan cyntaf i ddysgu pa fodd y gallant yn oreu dynu yn agos ato a'i adnabod, ac i feddu y bywyd sydd gymmeradwy ganddo Ef. Ni all dyn, fel bôd ysprydol, ymfoddloni ar y gyfundraeth fwyaf perffaith o dŷdrefnidedd *(economics)* cymdeithasol: y mae ganddo hiraethau a gorawyddau, fel y deuant alluog i arddcrchogi y bywyd sydd yr awrhon ac i'w barotoi ar gyfer y bywyd mwy cyflawn a thragwyddol sydd i fod. Fodd bynag, gan nad pa gymmaint y gall dyn gael ei ddigaloni trwy neu gan seguri a difaterwch mewn perthynas i grefydd, ni all anobeithio am byth yn nghylch crefydd ei hunan cyhyd ag y byddo yn credu yn Nuw.

Prif ac unig amcan crefydd, gan hyny, yw ein dwyn yn nes at Dduw; i beri i ni ei sylweddoli Ef fel ffynnon ein holl fywyd, ac i'w garu am ei ddaioni; i'n llanw ag awydd i ddyfod, yn ein mesur, yn berffaith fel y mae Efe yn berffaith. Y mae pob peth arall yn ddarostyngedig i hyn: y mae pob peth arall hyd y nod yn beryglus i'r graddau y mae yn cuddio ac yn ymyraeth â'r prif amcan hwn. Ni ellir amheu fod llawer o bethau yn werthfawr ynddynt eu hunain fel moddion a chynnorthwyon, y fath ag eglwysi a Beiblau, wedi dyfod yn fynych yn achosion o wir ddrygau, yn unig oblegyd eu bod wedi cael eu gosod i fyny fel pethau holl-bwysig yn lle gwasanaethu fel cynnorthwyon ac arweinyddion ar hyd y ffordd at Dduw—wedi cymmeryd lle Duw, ac wedi dyfod yn brif amcan ynddynt eu hunain. Y mae y camsyniad yn gyffelyb iawn i eiddo y sawl sydd, mewn cylchoedd ereill, yn camgymmeryd y moddion am yr amcan, neu y rhai sydd yn byw yn unig er mwyn arian, neu grugio yn nghyd y cyfryw, neu fyw er boddhad y cnawd a'i chwantau. Y mae rhai dynion yn gwneyd duw o arian fel chwantau, yr un fath yn union ag y mae ereill yn gwneyd Duw o'r Eglwys neu y Beibl. Dyma beth, yn ngwir ystyr gyfyng y gair, yw eilunaddoliaeth,—cymmeryd yr hyn sydd yn amrywio yn annherfynol yn ol natur yr eilun osodir i fyny—yn amrywio o bentwr o aur i drysorau o ddaioni a doethineb cynnwysedig yn y Gyfrol Sanctaidd, ond yn syrthio yn fyr bob amser o'r gwir addoliad sy ddyledus i'r un Duw a'n Tad ni oll, yr Hwn sydd uwchlaw pawb, yn mhawb, a thrwy oll.

Gall Undodiaid hawlio yn deg eu bod hwy wedi gwneyd gwrthdystiad parhaus a chysson ar gyfrif y prif addoliad hwn o Dduw y Tad. Y maent wedi gwneyd felly dan lawer o anhawsderau ac yn ngwyneb camddealldwriaeth a chamddarluniad: o herwydd na fuasent yn plygu i lawr ac addoli unrhyw beth llai na'r un Yspryd anrhanedig tragwyddol, yr Hwn sydd yn teyrnasu dros bob peth, y maent wedi cael eu cyhuddo o ddiffyg ffydd a chariad tuag at Iesu Grist. Mewn blynyddau diweddar, fodd bynag, y mai rhai o leiaf o gynnrychiolwyr mwyaf teg iawnffyddiaeth wedi cydnabod annghyfiawnder creulawn y cyhuddiad hwn; ac nid hyny yn unig, ond wedi caniatau mai i'r Undodiaid, ac yn neillduol Channing a Martineau, y mae y byd yn ddyledus am y ffaith ei fod wedi colli golwg yn hollol ar yr olwg

ddynol i fywyd Crist trwy fod wedi cael ei lyncu i fyny yn y meddwl am dano fel yr Ail Berson yn y Drindod. Wrth gwrs, edrychir i fyny at Grist fel Duw y Mab; ond un o'r prif nodweddion arweiniol mewn llenyddiaeth ddiweddar yw y sylw parchus, neu y flaenoriaeth, sydd yn cael ei roddi i'r amgyffrediad dynol o Grist, ac am ddal ar yr hyn y mae Undodiaid yr oes ddiweddaf wedi dwyn llawer o annghymmeradwyaeth a gwarth.

Tra y mae ereill wedi bod felly yn ddystaw, ac i raddau helaeth yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn cyfnewid eu hagwedd, dau fod rhyw fath o agweddiad wedi cymmeryd lle yn mhlith yr Undodiaid eu hunain. Y mae y cynnydd rhyfeddol sydd wedi cael ei wneyd mewn gwybodaeth feirniadol a deongliad y Beibl, ac adnabyddiaeth well o grefyddau mawr y byd, yr amgyffrediad gwyddorol newydd o'r Greadigaeth, sydd yn peri crediniaeth yn y gwyrthiol yn fwy anhawdd, wedi cael effaith yn naturiol a dylanwad ar ein hamgyffrediad o Gristionogaeth ac à nodweddau hanfodol Iesu Grist. Yn flaenorol, tra yr oedd awdurdod yn cael ei hawlio i'r Iesu ar gyfrif ei enedigaeth oruwchnaturiol a galluoedd i gyflawni gwaith gwyrthiol, yr ydym yn priodoli iddo ef yn ei sefyllfa ddigymhar o herwydd y mawredd moesol ac ysprydol drigai ynddo, trwy yr hwn y galluogwyd ef i ddatguddio y berthynas agosach sydd yn bodoli rhwng Duw a dyn, ac i gynneu fflam o ffydd a gobaith a chariad yr hwn sydd wedi bod yn oleuni a llawenydd i'r byd er hyny.

Ond y cwestiwn sydd yn cael ei ofyn yw, pa un a oes perygl mewn unigoli yr Iesu allan ac aros, neu fanylu cymmaint ar ei fywyd a'i berson; ac i'r cwestiwn hwn yr wyf fi, a siarad wrth gwrs drosof fy hunan yn unig, yn teimlo yn rhw, medig i roddi ateb.

Yn ei bregeth glaerwych yn y Gynnadledd Genedlaethol, dywed Mr. S. Brooke:—"Gwaith rhwydd i'n blaenoriaid gadw y ffigwr pur a rhagorol hwn ar ben ein byddin, a dangos iddo ef gariad unigol—mewn graddau unigol ond nid mewn rhyw oddiwrth yr hyn ydym yn roddi i broffwydi a beirdd yr hil, oblegyd y mae o hyd yn gylymedig ag ef ryw oruwchnaturiaeth gwahaniaethol yn yr hwn y mae braidd yn cael ei ddwyfoli; ond y mae hyny wedi diflanu yn llwyr o'n meddyliau; ac y mae yn dda i ni ofyn i ni ein hunain os, yn y diflaniad o'r goruwchnaturiol ac o'r holl athrawiaethau mewn perthynas iddo a'i gwahaniaethent ef oddiwrth y natur ddynol gyffredin i ni oll, ei fod ef wedi diflanu hefyd. Yn ei golli fel Duw, neu fel Gair Duw, a ydym ni wedi ei golli ef hefyd fel dyn? A ydym ni wedi darfod neu roddi fyny ei garu a'i ganlyn ef? A ydyw wedi dyfod yn freuddwyd neu enw yn unig, dim yn hwy yn yspryd yn ein calonau, dim yn hwy yn gyfaill personol, dim yn hwy ein brawd anwylaf? A ydym ni, yn y perthynasau cyfnewidiol hyn, wedi ei adgreu ef i ni ein hunain, neu a ydym wedi ei adael yn unig, a chwedi llithro yn ol i ddduwiaeth Iuddewig? A ydym ni yn dywedyd wrthym ein hunain, 'Y mae efe wedi marw a'i gladdu, ac ni a osodwn goronbleth ar ei feddrod? neu a ddywedwn yn ein calonau, 'Y mae wedi codi i ffurf newydd, ac wedi myned o'n blaen i fyd newydd. Ni chaiff efe rodio

yno yn unig ; mi a af i'w gael allan a'i garu ef yn fwy nag erioed. Y mae ei wirioneddau yn eglurach yn awr nag oeddynt, y mae ei lais yn felusach, a'i fywyd yn fwy i mi: Arglwydd, at bwy yr awn ni yn mhlith dynion, yn mhlith yr holl ddamcaniaethau hyn o fywyd, yn y byd annoeth a gwamal hwn o ymresymiad, os nad atat ti? Gwn beth mae dy fywyd yn olygu : y mae yn eglur, yn eglur i'r plentyn gostyngeiddiaf. Gall yr holl fyd garu a chredu mewn cariad anfeidrol. Trwy fywyd a marwolaeth mi a'th ganlynaf di at Dduw y Tad!' Dylai rhywbeth o'r fath hyn fod ynom ni os ydym etto i alw ein hunain yn Gristionogion!"

Yn y geiriau hyawdl hyn y mae genym honiad o ddysgyblaeth i Grist gan Mr. S. Brooke sydd yn rhydd a buddiol gan yr oll all beirniadaeth ddweyd wrthym, gan ei bod yn sylfaenedig yn hollol ar fawredd ysprydol. Fodd bynag, y mae un arall o'n pregethwyr, geiriau yr hwn, yn neillduol yn y cyfeiriad hwn, sydd yn cario dylanwad mawr a naturiol gyda hwynt, wedi cael ei gynhyrfu i roddi rhybudd mewn ffordd o wrthdystiad yn erbyn y bleidiaeth ddifrifol ac hyawdl hwn. Dywed Mr. Armstrong, mewn pregeth a gyhoeddwyd yn yr *Inquirer*, yn Mehefin:—"Y mae Undodiaid wedi dyfod i'r argyhoeddiad nad yw'r Iesu yn Dduw ond dyn. Os yw felly yn wir, fel y mae Mr. Brooke ac ereill yn honi yn daer, mai hwn yw nid yn unig y dysgawdwr mwyaf moesol ac ysprydol a anwyd o'r hil ddynol, ond fod y bywyd crefyddol mwyaf effeithiol yn hollol ofynol iddo ef fod yn yspryd yn ein calonau ni, a ydyw y fath berthynas i'r bod dynol neillduol hwn, yr un personoliaeth hanesiol, nid yn unig yn dda a chynorthwyol, ond hyd y nod yn hanfod o wir grefydd? neu, ar y llaw arall, oni all fod peryglon ysprydol llawn mor ddwys neu sobr mewn pregethu Crist i ormodedd ag sydd mewn pregethu Crist yn rhy fach? Ond o'm rhan fy hun," y mae yn parhau, "yr wyf yn argyhoeddedig mai hyn yn gywir i raddau dirfawr y mae yr Eglwys Gristionogol wedi ei wneyd. Y mae wedi ailadrodd mor gysson enw y dysgawdwr fel y mae y ddysgeidiaeth wedi myned allan o'r golwg; wedi aros cymmaint ar y dysgawdwr fel y mae datguddiad wedi ei adael allan yn gyfangwbl." Ac yna mae Mr. Armstrong yn myned rhagddo i nodi allan gyda nerth mawr fod llawer—fod Undodiaid a llawer ereill, o'r sawl sydd yn barhaus ag enw Crist ar eu gwefusau, etto yn methu sylweddoli ei ddysgeidiaeth yn eu bywydau, ac hyd y nod drafod fel egwyddorion dansoddol ansefydlog a diystyr wirioneddau y fath a chariad at Dduw a dyn, y rhai oeddynt hyd y nod anadl bywyd yr Iesu ei hunan.

Diau fod llawer, i'r rhai y mae enw Crist yn anwyl iawn, yn syrthio yn fyr o'r hyn y mae dysgyblaeth Gristionogol yn ofyn ; ond etto, a ydyw hyn yn rhywbeth neillduol iddynt hwy, neu ynte a ydyw yn ddyledus i anmherffeithrwydd dynol, ac i'w gael allan, i raddau mwy neu lai, gyda phawb sydd yn caru yn wirioneddol a didwyll, ac yn gorawyddu ar ol meddylddrychau mawrion sydd etto yn analluog i'w sylweddoli?

Y pwynt, gan hyny, yw nid pa un a yw y sawl sydd yn edrych ar

yr Iesu fel eu harweinydd yn llwyddo yn gyflawn mewn adgynnyrchu ei yspryd ynddynt eu hunain, a pha un a yw dysgyblaeth yn eu cynnorthwyo yn eu hymdrech i wneyd hyn ac arall neu beidio. A ydynt yn well neu waeth oblegyd eu dysgyblaeth? A ydyw y gorchymynion neu yr eirchion mawrion o gariad at Dduw a chariad at ddyn yn dyfod yn fwy rhwymedig neu lai rhwymedig o fod yn gyssylltiedig gydag un nid yn unig a'u cyhoeddodd fel cyfraith ond a'u harddangodd yn ei fywyd? Ydym, yr ydym oll o honom yn rhy dueddol, mae lle i ofni, i arfer geiriau mawr a chyssegredig heb ymdrechu fel y dylem i'w gwneyd yn sylweddau am y rhai y maent yn sefyll yn rhan hyd y nod o'u bodolaeth. Ond yn unig y gallwn ni feddwl ei fod yn gynnorthwy dirfawr yn erbyn ymollwng gyda phrofedigaeth sydd barod i'n hamgylchu, fod genym nid yn unig y gair a'r meddyliau o gariad er enghraifft, ond ei eglurhad byw yn mherson yr Iesu, a dychymygwn I y gallai llawer allasent wrthwynebu i freuddwydion awyrol â syniad cartrefol, gan ddweyd fod mewn byd o fath ein byd ni ffeithiau sydd yn rhaid eu cymmeryd dan ystyriaeth, gael eu gorfodi i gydnabod fod yn mywyd yr Iesu o leiaf ffaith sydd yn gwrthryfela yn fuddugoliaethus eu cyfrif anffyddol o'r natur ddynol a'r bywyd.

Etto, cyffesaf nad wyf yn gweled grym y gwahaniaeth rhwng y cenadwr a r genadwri. Dywedir fod yr "Eglwys Gristionogol wedi colli y genadwri yn y cenadwr." A ydyw y plentyn yn colli y teimlad o gariad pan yn meddwl am y fam sydd yn gwylied drosto? I mi y mae Cristionogaeth heb Grist yn darfod a bod yn allu byw. Yn mhell oddiwrthyf y b'o dibrisio mawredd ysprydol a phrydferthwch rhanau o'r Hen Destament, a rhai o ddarnau penigamp llenyddiaeth Groeg, ac o ysgrifeniadau cyssegredig Hindwaidd; ac etto meddyliaf na all neb basio oddiwrth y rhai hyn at y cynnyrchion Cristionogol heb fod yn ymwybodol o wahaniaeth, heb berthynas agosach, mwy personol at Dduw, o ymddiried dyfnach a ffydd mewn dyn. Pa sut y mae cyfrif am hyn?

Dansoddwch y meddylddrychau Cristionogol a chewch allan, meddir, mai dim ond ychydig sydd wreiddiol ynddynt; y mae proffwydi a gwleidyddwyr wedi bod o flaen yr Iesu, y rhai a rhagddysgwyliasent am dano mewn llawer ystyr. Y gwahaniaeth neu y rhagoriaeth fawr o Gristionogaeth yw, nid oblegyd ei fod wedi gwneyd darganfyddiadau hynod yn nghylch gwirioneddau dansoddol, ond iddo lanw gyda bywyd galluog a grym wirioneddau oeddynt wedi cael eu dal yn flaenorol mewn ffurf wasgaredig, ond heb achosi llawer o effaith. Bu i'r Iesu fyw y cyfryw, a phan welodd dynion y bywyd wedi ei lanw o i gariad tanllyd ef, darfu iddynt feddu bywyd newydd, a meddiannent ef gydag yspryd hollol wahanol. Ni wyddent am y genadwri ond trwy y cenadwr; nid oedd yn ddim iddynt hwy ar wahan oddiwrtho ef. Ac felly y mae wedi bod bob amser. Y mae cyfnodau maith du wedi bod yn hanes Cristionogaeth, ac yn gymhlethedig â hwynt y mae wedi bod dymhorau dysglaer a bywyd adnewyddol. Y ffaith hynod yw fod y tymhorau dysglaer wedi cael eu nodi allan bob amser gan ddyddordeb adnewyddol yn mherson Crist;

mae crefydd wedi d'od yn fwy dynol, yn fwy o ran o fywyd dyddiol, ac yn fater yn yr hwn y mae y bobl gyffredin wedi cymmeryd mwy o ddyddordeb ynddo oblegyd mai ef oedd y cyffroad uwchaf, ac nad oedd naill ai yn feirniad nac yn ysgolor yn yr ystyr gelfyddydol, ond dyn yn mhlith dynion, a'r hwn a demtiwyd yn mhob peth yr un fath a ninau.

Y mae yn anmhossibl, yn yr amser sydd wrth law yn bresenol, i ddweyd yr oll ddymunwn ddweyd, ac a allesid ddweyd ar y cwestiwn pwysig hwn. Bwriadaf barhau y bregeth hon foreu Sul nesaf, pan gaf nodi allan y sefyllfa neilldnol fantei'sol fwynha yr Undodiaid trwy wneyd defnydd trwyadl o fywyd ac esiampl Crist. Yn y cyfamser, dymunem gymmeradwyo y pwnc i'ch ystyriaeth ddwys fel un yr ymddengys ei fod yn gyssylltiedig agos gyda chynnydd y bywyd unigol a chynnydd y bywyd crefyddol.

L.

CAROL HAF.

(Allan o Almanac John Prys am 1736.*)*

Attolwg glana Teulu, rhowch gennad imi ganu
Mae'r yd a'r borfa'n glasu, yn tyfu ar y Tir;
Mae'r Gog yn pyngcio'i gorau yn barod hwyr a borau
Nid pell oddi wrth ein drysau yw dyddiau Clanmai clir.

Mae muwsig ar y meusydd, pereiddiol bob boreuddydd,
Ar ddyffryn ac ar fynydd mae darpar ffrwythydd ffraeth
A'r wyn yn prysur chware, a mynnod yn rhai manne,
Mae gweddol gwiion gwydde, mae mamau lloiau a llaeth.

Pe medrem fod yn fodlon, a diolch i Dduw'n ffyddlon
Efe sydd inni'n danfon bendithion digon da;
O'r fan lle bo bodlonrwydd yn oestad a gonestrwydd,
Ni lithra fyth helaethrwydd a hyfryd ffrwythydd Ha.

Mae llawer o glefydon yn dwyn i'r beddau dyfnion,
Rhai glan wynebau llyfnion yn oerion feirwon fud:
Nid oes nac aur nac arian, na chyfoeth na thir llydan,
All achub mawr na bychan rhag myn'd i'r graean grud.

Mae rhai yn rhy awyddus i bethau'r byd twyllodrus;
A'u mwnws sydd fel man-us yn myned gyda'r gwynt,
Ond rheitiach ini o lawer ofalu am gyfiawnder,
A rhoi ar Dduw bob amser ein hyder ar ein hynt.

A gwyn eu byd eneidiau y rhai sy a'u holl galonau
Yn labrio ar union lwybrau daionus ddeddfau Duw :
Os medrwn fod yn fodlon a diolch iddo'n ffyddlon
Fe ddigwydd ini ddigon o foddion yma i fyw.

Mae ein buchedd ddrwg o bechu, yn digio ein Harglwydd Iesu;
O, am ei ras i'n helpu i edifaru'n fawr ;
Gweddio a ddylem ninnau, rhag tynnu am ein pennau,
O achos ein camweddau, ddialeddau Duw i lawr.

Duw cadw ein brenin grasol, Siors, dy was dewisol,
I lywodraethu ei bobol yn ddiwiol yn ei ddydd ;
A chadw Eglwys Loeger, a'r bonedd sydd bob amser,
Yn taro ymhlaid cyfiawnder, heb ffalsder yn eu ffydd.

Rees Ellis [o'r Waen] a'i cant.

[Y "brenin grasol" oedd George II. ; ond pwy oedd oedd y Rees Ellis sydd mor *loyal*? Mae'r hen almanaciau yma yn ddyddorol iawn Mr. Gol., ar gyfrif eu bod yn eu hamser yn llanw lle ein cylchgronau presenol. Cynwysant lawer o lenyddiaeth o fath, a rhoddant ini bron yr oll a wyddom am rai o lenorion yr oes hono. Ceir y gan uchod hefyd yn "Blodeugerdd Cymru," tud. 304 (1759) yn nghyd a dwy eraill o waith yr un awdwr.—T. C. U.]

OLE BULL AC ERICSSON.

Cerddor enwog oedd Ole Bull a dyfeisiwr (inventor) oedd Ericsson. Dengys y stori ganlynol y camsyniad mawr o ymgyflwyno'n ormodol at un pwnc, gan gau allan bob pwnc arall. Yr oedd y ddau yma wedi bod yn gyfeillion gwresog yn more eu bywyd, ond yr oeddynt wedi ymwahanu wedi hyny, fel na ddaethant mwy i gyffyrddiad a'u gilydd, nes oeddynt ill dau wedi cyrhaedd enwogrwydd. Yr oedd Bull wedi swyno clustiau miloedd dros yr holl fyd gwareiddiedig, tra'r oedd y rhan oedd y llall wedi chwareu fel peirianydd yn y rhyfel Americanaidd wedi cynhyrfu'r Gogledd i ryw frwdiasedd rhyfeddol, ac wedi synu'r byd.

Un dydd, gwahoddodd Bull Ericsson i ddod i'w gyngherdd y noson hono. Ymesgusododd Ericsson trwy ddywedyd nad oedd ganddo ddim amser i wastraffu.

Wedi adnewyddu felly yr hen gyfeillach, parhaodd Bull i alw ar ei hen gyfaill, pan ar ymweliad a New York, ac fel arfer, wrth ymadael gofynodd iddo ddyfod i'r concert ; ond yr oedd Ericsson yn wastad yn gwrthol y gwahoddiad.

Un tro yr oedd Bull wedi gwasgu ei wahoddiad yn fwy gwresog nag arfer, a dywedodd—

"Os na ddeuwch, mi a ddeuaf a fy nghrwth gyda mi yma, ac mi chwareuaf yn eich shop."

"Os gwnewch, mi a'i briwaf yn gandryll i chwi."

Dyma lle'r oedd dau ddyn cwbl groes i'w gilydd; un yn freuddwydiwr cynhyrfus a rhamantus, a'r llall yn ddyn stern, meddylgar, ymarferol, yn cymmeryd mantais ar bob moment gyda'r manylrwydd perffeithiaf.

Yr oedd cywreinrwydd Bull wedi ei ddeffroi er cael gweled pa effaith gaffai ar natur y dyn *matter-of-fact* hwn. Felly, gan gymmeryd ei grwth gydag ef, aeth i siop Ericsson. Yr oedd wedi tynu i ffwrdd y tannau, a'r *screws*, &c. A phan yn sylwi ar wyneb anfoddog Ericsson galwodd Bull ei sylw at ryw ddiffygion yn ffurfiad yr offeryn, a gofynodd i Ericsson am nodweddion gwahaniaethol gwahanol goedydd fel cyfryngau i drosglwyddo swn; ac aeth yn ei flaen i siarad am swn, ac am donau a hanner tonau.

Ac er mwyn egluro ei feddwl, gosododd y tannau yn ol, a chan gyffwrdd a hwy yn araf, aeth rhag ei flaen yn raddol nes dwyn allan y fath gyfoeth o fiwsig ag a barodd syndod i bawb.

Yr oedd y gweithwyr, mewn myfyrdod dwys, wedi dropio eu hofferynau, ac yn sefyll yn syn.

A chwareu'r oedd Ole Bull yn y blaen, yn y blaen, a phan o'r diwedd y peidiodd, cododd Ericsson ei ben plygedig, a chyda llygaid gwlybion dywedodd: "O peidiwch aros. Ewch yn y blaen! Ewch yn y blaen! Ni wyddwn i erioed hyd yn awr beth oedd yn ddiffygiol yn fy mywyd."—C. F.

CENFIGEN.

Creadur o agwedd salw, gas, guchiog, ydyw cenfigen: gwna suro ac anharddu pobpeth o'i gylch; gall rywfodd droi y mel yn chwermod, a thrawsnewid cariad yn gasineb. Diamheu fod ei dras i'w olrain yn ol i dad pob celwydd a drygioni, ond erbyn heddyw mae yn cartrefu yn ein byd ni er's miloedd o flynyddoedd—byth oddiar pan y llwyddodd y sarff i dwyllo ein mam Efa, ac yn anffodus cafodd gartref yn y galon ddynol. Dyma'r anghenfil ddarbwyllodd Cain i ladd ei frawd Abel, am iddo aberthu aberth rhagorach nag ef ei hun; hwn lanwodd galon brodyr Joseph, nes y gwerthasant ef yn gaethwas i'r Aifft, oblegyd ei fod yn rhagori arnynt hwy; rhoddi ffordd i ddarbwylliad yr un yspryd barodd i Saul, Brenin Israel, gashau Dafydd, yr hwn fu yr amddiffynwr goreu i'w wlad a'i deyrnas, drwy iddo ladd Goliath y cawr. Mil, a mwy, ydynt y gweithredoedd anfad a gyflawnwyd yn ei ysprydiaeth. Achosodd dywallt afonydd o waed gwirion; cochodd lawer gwaith wyneb y ddaear â gwaed ei meibion; hi, yn gyssylltiedig â'i brawd Trachwant, ydynt wedi esgor ar y gweithredoedd mwyaf erchyll, a'r galanasdra mwyaf dychryllyd i'r hil ddynol.

Eithr o bob cylch yn yr hwn y bodola Cenfigen, y mwyaf gwrthun ac annyoddefol ydyw y cylch crefyddol. Nis gellir gwadu nad yw yn erchyll iawn yn nghylchoedd bydol a chymdeithasol, ond o bob man y dengys Cenfigen ei throed fforchog ynddo, yr un crefyddol sydd fwyaf amlwg yn ei anaddasder. Un aelod yn cenfigenu wrth aelod arall, un diacon yn llawn dig a malais at ddiacon arall, ac un gweinidog yn llawn cenfigen at weinidog arall.

Dywedir i mi mai nid yn anfynych yr amlygir y bai enbyd hwn rhwng offeiriad a'i giwrad. Os bydd y ciwrad yn bregethwr gwell na'r offeiriad, yn ddyn mwy hynaws a serchog, yn fwy yn mharch y gynnulleidfa, cenfigenir yn enbyd wrtho gan yr un sydd uwchlaw iddo, a thrwy hyny mae y gwasanaeth yn galed iddo; tra, pe buasai duwioldeb o'r iawn ryw yn nghalon yr offeiriad, gwnai lawenhau fod Duw wedi danfon ciwrad mor rhagorol iddo, am fod myn'd ar Air Duw o'i enau, a phechaduriaid yn cael eu hachub i fywyd tragwyddol; ond gadawa i'r hen yspryd fod yn ben i'w lywodraethu—"pwy fyddai fwyaf." Dychryna rhag y bydd gobaith yr elw ar fyned ymaith; nid oes ganddo ddigon o gred yn Nuw y gwna ofalu am dano.

Ceir yr un genfigen yn mhlith gweinidogion Ymneillduol, nid, o bossibl, dan yr un ffurf ag yn mhlith offeiriaid; oblegyd nid llawer o weinidogion sydd yn cadw ciwradiaid. Dengys yr anghenfil ei ben yma mewn eiddigedd at bregethu y naill a'r llall. Os bydd y gweinidog yn ddim ond pregethwr cyffredin, gwna ei oreu glas i rwystro pregethwr da i dd'od i bregethu i'w gapel, rhag ofn y leicia ei eglwys ef yn well nag ef ei hun, a thrwy hyny gael ei daflu i'r heol, neu fo'i ei bobl yn gweled fod pregethwr gwell na'u pregethwr hwy o fewn y bydysawd. Os daw pregethwr da i'w gapel drwy ryw anffawd neu gilydd, a'i fod ef yno yn ei wrandaw, bydd yr hen genfigen atgas hon yn llanw ei galon; ac yn lle gwrando fel Cristion ar ei frawd yn pregethu yr Efengyl gyda dylanwad, bydd mewn penbleth ofnadwy yn nghylch dylanwad y bregeth ar ei gynnulleidfa, a chryna rhag yr anfonant iddo *notice to quit*. Llenwir ei feddwl a'i galon mor llawn o'r teimlad drwg, iselwael hwn, fel na ddywed na bwm, na be, nac amen, gyda geiriau ei frawd. Ac hyd y nod pan fyddo bywioliaeth y dyn yn sicr, yr un fath ydyw; canys tuedda i daflu i lawr yr uchelgais ddrygionus hwnw sydd yn ei galon; pan y dylai fod yn barod i fod yn bobpeth neu yn ddim dros ei Arglwydd, ond gwthir ei Arglwydd yn ol gan hunan, *hunan*, HUNAN, byth a hefyd.

Gallwn fellwl fod y pregethwyr cyffredin hyny sydd mewn eglwysi yn hynod o ddall i rwystro eu pobl i gael clywed pregethwyr da weithiau; oblegyd y mae yn fwy goddefol i fyw ar fwyd gwael os ceir ambell i wledd yn awr ac yn y man; ond y mae dyn, os bwydir ef â bara llaeth yn barhaus, yn sicr o alaru arno, a gwrthryfela yn ei erbyn yn y diwedd. Felly gwell, er mwyn hunanles, i adael i'w cynnulleidfaoedd gael pregethwyr da, pan fyddant hwy i bant, os bydd hyny yn bossibl, ac nid fel "ci yn y preseb" yn eu cadw i bant er mwyn ei esmwythyd ei hun.

Gwir fy mod wedi clywed weithiau am bregethwyr achlysurol yn ymdrechu dwyn yr eglwys oddiar y gweinidog. Mae hyny, o'r tu arall, i'w gondemnio yn llym; dylai fod ynom, fel pregethwyr a gweinidogion, fwy o hunan-ymwadiad, ac nid glynu mewn lle pan mae cydwybod a lles yr eglwys yn gofyn am ymadael. Wrth gwrs, ni ddylai un gweinidog ladrata eglwys un arall; er hyny cul, ac annghristiongol ydyw i weinidog gadw pob pregethwr da draw. Dylai fod ynddo fwy o gred ac ymddiriedaeth yn Nuw, doed hi fel y del, ac yn enwedig ni ddylai genfigenu fod ei frawd yn pregethu yn dda.

D. Ff. D.

DYFAL DONC A DYR Y GARREG.

"Dyfal donc a dyr y garreg," medd diareb, gyfaill, clyw,
Gwrando ar ei chynghor mwyn-deg, cynghor gwerthfawr iti yw;
A'th holl egni dal i guro, torcha'th lawes etto i'r lan,
Rho dy nerth o hyd heb flino, fe ddaw llwyddiant yn y man.

Os na lwyddaist yn dy amcan, paid a digaloni 'nawr,
Cwyd dy galon, gyfaill dyddan, paid ag edrych tua'r llawr;
Rho dy droed ar ben pob rhwystrau, bydd yn wrol, cofia di,
Rhaid, wrth ddringo i ben y bryniau, chwysu llawer, coelia fi.

Fry, ar ben y bryn, mae'r goron, perlau fyrdd sy'n harddu hon,
Arni cadw dy olygon, cyrcha ati'n ddewr dy fron;
Cadw'th draed ar lwybrau rhinwedd, paid a gwyro i un tu,
Ti gei'r goncwest yn y diwedd, dyfal donc a ddaw a hi.

Cefn Coed. Caswallon.

SANT BRADLAUGH.

(Gweler Ymofynydd, tud. 89, 115.*)*

Mr. Gol.,—Yr ydwyf mor hoff o heddwch a chymmydogaeth dda, fel mai cas beth genyf yw cymmeryd rhan mewn dadl. Wrth ysgrifenu fel y gwnes yn rhifyn Ebrill, ni freuddwydiais am sangu ar sawdl neb, ac yr wyf wedi pryderu nid ychydig pa un a oes galw arnaf i wneuthur sylw o lythyr Mr. J. J., T. Yr wyf fi wedi traethu fy llen, ac ar ol manwl ystyriaeth o'r hyn a ysgrifenais nid wyf yn gweled dim yn neillduol yn galw am ei newid. Y mae J. J. yntau wedi traethu ei len, ac yr ydym yn gwahaniaethu. Ond beth am hyny? Nid wyf fi yn honi anffaeledigrwydd, a thebyg nad yw yntau. Rhydd i bob meddwl ei farn, &c.

Ysgrifenir y llinellau hyn nid gydag un dysgwyliad i argyhoeddi J. J., ond rhag iddo feddwl fy mod yn ei anwybyddu, yn ei ystyried, yn ngeiriau'r bardd "yn salach nag islaw sylw." Nid felly mewn modd yn y byd. Y mae genyf ryw "ddirgel hoffder" o'r modd y

mae weithiau yn ysgwyd ei fflangell o fan reffynau. Ond beth pettai, &c.

Dywedais i fod Mr. Bradlaugh wedi treulio y rhan oreu o'i fywyd i ddirmygu a gwawdio pob math o grefydd; os yw J. J. yn barnu yn wahanol, y mae iddo berffaith roesaw. Dywedais i nad oeddwn yn credu fod rhifedi mawr yn mhlith yr Undodiaid yn Nghymru yn awyddus i hawlio ei fod yn sant, ac y byddai ef ei hunan y diweddaf i wneuthur hyny; os yw J. J. yn barnu yn wahanol, nid oes angen i ni gwympo maes. Ond nis gallaf gytuno ag ef. Pan oedd Mr. Bradlaugh yn ymosod ar ei eilunod tybiedig, nid oedd yn rhyw ofalus pa drysorau gwerthfawr elent i lawr yn y dinystr gyda'r eilunod. O'r holl lythyrenau, ei hoffaf oedd yr "I," ac yn yspryd yr I-*conoclast* ymddygai fel y milwyr yn taubelenu Alexandria, heb wneuthur fawr ymgais i wahaniaethu rhwng pethau a gwahaniaeth rhyngddynt. Mewn dadl ei bwnc mawr ef oedd cario.

Dywedaf etto, fodd bynag, Pob parch dyladwy i Mr. B., ond ni ellir sant o hono. Pob parch iddo am ei wasanaeth gwleidyddol. Cafodd yma, ac nid mewn crefydd, y maes oedd yn *suito* iddo, maes lle'r oedd pob argoelion y gallai wneuthur gwaith da. Pob parch iddo am y cariad a ddangosodd dros y tlawd a'r angenus. Yr oedd yn amlwg ynddo lawer iawn o ddynoliaeth, ond am y peth hwnw, yr agwedd hono o ddynoliaeth sydd yn cael ei arddangosiad yn yr hyn a alwn ni yn grefydd, ymddangosai'n ddiffygiol iawn.

Fe ddywed Mr. J. J. fod Bradlaugh yn anffyddiwr, a'i fod ef ei hun yn anffyddiwr yn gyffelyb. Mae J. J. ar ddechreu ei lith yn diolch i Gynnaliwr bywyd am adferiad iechyd ei wraig. A allai Mr. B. wneuthur felly dan gyffelyb amgylchiadau?

Nid y teimlad crefyddol, fel y cyfryw, ydoedd nodwedd arbenig Mr. B.; gwawdio a dirmygu oedd ei *forte* ef yn y maes hwnw. Dichon mai'r ffaith iddo gael ei erlid gan grefyddwyr (mae crefyddwyr, bron o bob enwad, wedi gwneuthur gormod o hyny) arweiniodd i'r canlyniad yn nadblygiad ei fywyd ef, iddo yntau hefyd lyncu gormod o'r un yspryd, a myned yn erlidiwr ac yn wawdiwr. Trueni gwneuthur crefydd yn atebol am ddiffygion crefyddwyr. Mae gwerth a rhagoriaeth y rheol euraidd yn annybynol ar ymddygiad proffeswyr crefydd.

Dichon y gall fod anhawsder i roddi esponiad boddhaol gyda golwg ar beth yw sant; ond ymddengys imi yn beth rhwydd ddigon i ddywedyd beth nad yw. O bosibl fod Mr. J. wedi clywed yr hanesyn am William Jones o'r *Fox and Hounds*. Yr oedd Cymmanfa wedi bod yn y gymmydogaeth. Pan ddaeth William adre gyda'r hwyr, fe ddywedodd wrth Evan ei frawd, "Mi fues i yn y nefoedd heddyw! Mi fues i yn y nefoedd heddyw!" Ond meddai Evan, mewn yspryd digon amheus, "Beth, William bach, oedden nhw yn gwerthu cwrw yno?" Ni wyddai Evan ond ychydig fe allai o hanes William yn ystod y dydd, ond yr oedd yn tynu casgliad teg fod William wedi bod mewn rhyw awyrgylch heblaw y nefoedd. Dywed J. J. "nad yw P. P. yn gwybod ond ychydig am Mr. B.," ac y mae hyny yn eithaf gwir; ond y mae P. P. wedi anturio dywedyd nad sant mo Bradlaugh.

Mae hyd y nod Pabyddiaeth yn gofyn crefyddolder yspryd a bywyd mewn dyn cyn ei alw i fod yn sant. Ni wnaethpwyd sant erioed o'r un o'r pabau. Paham? Mae sant o leiaf, dybiaf fi, yn golygu dyn yn credu yn Nuw, dyn yn caru'r Iesu ac yn bleidiol i'w grefydd, dyn yn gobeithio am anfarwoldeb. P. P.

HEN BENNILLION.

WEDI EU CASGLU ODDIAR LAFAR GWLAD.

Cyn i mi yfed, nid oeddwn yn gweled
Ffordd yn y byd i dalu fy nyled;
Ond wedi im' yfed yr oeddwn yn gweled
Digon i dalu a digon i yfed.

Chwech peth sy'n sychu'n chwipyn,
Carreg noeth a genau meddwyn;
Cawod Ebrill, tap heb gwrw,
Pwll yr haf a dagrau gwidw.

Beth weli di'r mab penfelyn,
Sy'n caru blodau'r dyffryn?
Beth sy fan hyn, beth sy fan draw
Yn peri braw i'r glanddyn?

Mi wela' Banwen Pyrddyn,
Mi wela' Foel Penderyn,
Mi wela' Fforch y Garan Wen,
Mi wela' Ben rhiw menyn.

Beth gai di ar Banwen Pyrddyn?
Beth gai di ar Foel Penderyn?
Beth gai di ar Fforch y Garan Wen?
Beth gai di ar Ben rhiw menyn?

Caf lo ar Banwen Pyrddyn,
Caf galch ar Foel Penderyn,
Caf fyw yn Fforch y Garan Wen,
Caf rodio Pen rhiw menyn.

Mi welais deg liw'r eira
Ar lan y nant ddystawa',
Yn gwenu ar ei llun ei hun
Am nad oedd un a i cara.

Y GWRON BACH.

"O'r anwyl," ebai llais grwgnachlyd, "carwn pe bai'r crotiaid hyna yn llonydd, mae fy mhen yn 'mron hollti."

Gwynebpryd bychan, anfoddog, ydoedd a ymdroai yn flinderus oddiwrth y ffenestr, ac a ymgladdai yn ngobenydd pluog yr esmwyth-fainc. Dirgrynai y flurf deneu, wasgedig, gan ocheneidiau trymion, ac unwaith etto cwynfanai y llais anfoddog: "O'r anwyl! O'r anwyl!"

"Beth yw'r mater, Jac?" a neidiai ffigwr dal, gadarngryf, trwy y ffenestr agored.

"Dim, f'ewyrth Henry, dim," ac ymollyngai y ffurf fechan ar yr esmwythfainc i wylo'n dost, "ond mi garwn gael marw"

Gosododd ewyrth Henry ei daclau *tennis* yn esmwyth ar y llawr, a gwthiodd hwy o'r golwg. "Jac bach," ebai yn fwyn, "mae yn galed."

"Ni wyr neb," meddai Jac yn ddrylliog, "ond y mae yn peru i mi deimlo wrth orfod gorwedd a gweled Dai a Bob yn chwareu *tennis*, a'u clywed hwy yn gwaeddi fel yr arferwn inau wneyd, ac wrth wybod na cha'i byth etto fyn'd y tu faes i'r drws. Meddyliaswn wynebu y byd a bod yn filwr dewr fel chwi, f'ewyrth Henry, ond 'nawr"—

A chodai nifwl o flaen y llygaid caredig a edrychasent mor dosturiol ar Jac. Ddwy flynedd yn ol, pan oedd y Cadben Jones gartref ar ei wyliau, dylynai ei nai bychan ef o amgylch fel cysgod byw. Ar faes y *tennis* Jac oedd y meistr, ac ni allasai neb rwyfo cystal ag ef. Yn nghynghorau y teulu yr oeddys wedi penderfynu er ys talm mai milwr oedd Jac i fod. "Mae ganddo gorff mor lluniaidd," meddai ei dad gyda balchder, "ac ni wyr beth yw ofn; ac heblaw hyny, mae ganddo enw sydd yn rhan o hanes ei wlad," ac oni wyddai Jac hyn, ac oni ymffrostiai yn ngorchestion milwrol ei dad-cu? Pa gynifer o Sadyrnau dedwydd a dreuliodd efe i drefnu a dysgu minteiodd o fechgyn fel ei hun? Ni freuddwydiai un o honynt am ddim amgen na bod yn filwr tra yr oedd Jac yn eu plith.

Cyhyd ag y buwyd yn ail-adeiladu yr ystablau, aethpwyd trwy lawer ymgyrch ffugiol—un fintai dan lywyddiaeth y crwtyn hwn, tra yr arweiniai Jac y gatrawd arall. Yna daeth y frwydr olaf, pan y chwyfiai Jac, wrth sefyll ar ben crugyn o goed a cherryg, ei gleddyf, ac a erchai i'w wyr frysio i'r ymosodiad. Dyna i gyd allasai gofio. Cafodd gwymp trwy ran anorphenedig o lawr yr ystabl, a dylynwyd ef gan ddyddiau a nosweithiau blinion o boen enbyd.

Dyoddefodd y bachgen, heb syflyd, artaith cyllell y meddyg. "Nid yw wiw i wyr wedi eu clwyfo mewn rhyfel achwyn," ebai yn wrol; "ac ni waeth gen I, pan bwy' I'n well."

Wrth siarad felly, synai paham yr oedd ei dad yn hedfan bron o'r ystafell, a gwyneb ei fam yn myn'd mor welw. Ac yn rhy fuan daeth i wybod y ddedfryd greulon, nad oedd efe, Jac, yr hwn a fu yn byw gymmaint yn yr awyr agored, ac a ymfalchiai yn ei gryfder, byth i rodio mwy. Nis gallasai neb fesur anobaith yr enaid bachgenaidd

hwnw wrth droi ei wyneb llwyd, diddagrau at y wal, tra yr oedd acen y geiriau ofnadwy hyny yn adseinio o hyd yn ei glustiau. Dywedai yr holl deulu fod Jac yn dwyn ei dynghed yn well nag yr ofuent. Dysgwyliasant ffrydiad nwyfus o dristwch, yn lle y tawelwch oeraidd, anniddig hwn. Yr oeddynt i gyd yn deulu mor hapus, heb brofi erioed o chwerwder siomedigaeth—sut y gallasent hwy wybod pa frwydr ddig oedd yn myn'd yn mlaen yn y ffurf fechan a orweddai mor ddigyffro ar y gwely!

Mor anfoddlon y gwnelid Jac wrth weled ei frodyr cedyrn, gewynog, yn chwareu! Yr oedd yn eu cashau yn hollol pan y rhuthrent i'w ystafell gyda'r newydd am ryw ffawd ryfeddol wrth bysgota, neu ar y maes gyda'r bêl. Ni theimlai y bechgyn hwythau yn gartrefol yn yr ystafell lonydd Nis gallent ddygymmod â'r lle, ac anhawdd oedd sylweddoli mai Jac yn wir oedd y cysgod gwelw, anhapus hwnw. "Mae'n edrych fel yspryd," ebai Dai yn nghlust Bob, a theimlai y gallasai efe yn burion ymgodymu ag ef 'nawr.

Clywai Jac, druan, bob gair. Ai dyna i gyd oedd eu gofal hwy, ynte? Cai Dai wel'd gwell ryw ddiwrnod. Ac yna cofiai. Dyna'r ergyd creulonaf o bob un. Darfu iddo glywed crwtyn wyth mlwydd oed yn ymffrostio y gallasai ymgodymu ag ef, a gwyddai fod hyny yn wir. Er y diwrnod hwnw ni adawsai i un o'r bechgyn ddyfod yn agos ato: dywedai eu bod yn peru i'w ben guro. Ni chawsai neb wneyd dim drosto. Cashäai ddarllen. Pa ddyben oedd gwrando hanesion am frwydrau a hela a dygwyddiadau o wrhydri, os oeddych i orwedd mewn gwely am byth?

Ni wyddai ei fam pa beth i wneyd o hono; ac o ddydd i ddydd trymhäai ei chalon wrth sylwi ar dymher anfoddog, a gwrando ar ymadroddion penrhydd y bachgen a fu unwaith yr hapusaf a'r addfwynaf o'i phraidd. Pan y clywodd Jac fod ei wron, ewyrth Henry, yn dyfod adref, aethai maes o'i gof. Brathiad arall fyddai iddo weled y ffurf hardd a gwrol hono, a gwrando ar ei gerddediad milwrol. Ni chawsai byth mwyach ddyfyrwch yn nghwmni ei ewyrth Henry.

Yr oedd Cadben Jones y *type* mwyaf godidog hwnw o ddyndod,—yr oedd yn filwr Cristionogol. Deallodd Jac ar unwaith, ac yn ei bresenoldeb tesog nid oedd bywyd mor annyoddefol. Heddyw, fodd bynag, ymgafodai ei drueni arno yn rhidyll. Gallasai eu gweled i gyd wrth eu difyrwch. Ewyrth Henry oedd y crwtyn mwyaf. O'r amser braf oedd arnynt! 'Doedd dim syndod fod Jac, wrth orwedd ar ei wely, ac edrych ar y lawnt werddlas o flaen y ty, yn teimlo fod ei dristwch yn fwy nag a allasai ddal, ac arllwysodd i glust ei ewyrth Henry yr holl chwerwder fu yn pentyru yn ei galon am fisoedd.

Am yspaid hir y prydnawn hwnw siaradodd y milwr Cristionogol â'r plentyn, ac edrychai arno fel ei arwr, am y brwydrau gwerth eu hymladd, a'r buddugoliaethau diwaed oedd i'w hennill ar wrthryfel ei galon ei hun. Ychydig eiriau byth-gofiadwy am y milwr a "ddysgodd ufuddod trwy y pethau a ddyoddefodd," ac ewyllys yr hwn oedd i Jac gario y groes. Rhwng y "ddau oleu," pleidiai y llais difrifol ar Jac i ym-

restru dan y Cadben mawr, a gweddiai yn dyner ar i'r milwr bach, er wedi eu glwyfo yn greulon, gael amynedd i ufuddhau i'r wys yn siriol, a dywedai Jac, "Amen."

Ni allasai neb ddweyd pa mor ffyrnig fu'r frwydr. Yr oedd y groes yn drom, a'r corff egwan yn crynu dan ei phwys. Aeth ewyrth Henry yn ol at ei waith. Bob wythnos anfonai lythyr siriol, helpfawr, at y plentyn oedd yn ymladd mor wrol Mewn atebiad deuai nodynau, wedi eu hysgrifenu, ychydig eiriau ar y tro, yn ol fel y gallasai ei fysedd gweinion ddal y pin. A chyda hwy, yn aml, lythyron oddiwrth ei fam, yn dweyd am y cyfnewidiad mawr yn Jac, ei amynedd a'i lareidd-dra mewn dyoddefaint.

Un diwrnod yn y Gwanwyn cynnar yr oedd y Cadben Jones ar fin marchogaeth ei geffyl pan gyflwynwyd brys-neges gan un o'i filwyr. Gan ei agor yn frysiog, darllenodd yr ychydig linellau trwy y dagrau a ymruthrent i'w lygaid.

"Beth yw'r mater ar y Cadben?" ebai un milwr wrth y llall, "ymddengys fel pe bai wedi colli cymmrawd agos."

Felly yr oedd; oblegyd dyrchafwyd Jac, a chafodd fyned i dderbyn croes o anrhydedd bythol.

HEN EMYN AR JOB, X. 9—12.

Cofia Arglwydd fel y'm gwnaethost yn wanddyn
Fel y llestrwr a lestro'r priddyn
Yr hwn all ei ddinystro a'i droi yn lludw
A chofia fel y'm ffurfiaist o'r un ddelw
A chaws a gesselir o laeth ac o hufen
A chwedi iti hefyd f'aelodau gydorphen
Cofia fel y'm gwisgaist à chig ac a chroen
Ag esgyrn a giau cydgydiaist fi i boen
Ac a roddaist i'm hefyd drugaredd a bywyd
A'th anweledigaeth a geidw fy yspryd.

Rosier Smyth (o Dref Lan Elwy,

Athraw o Theologyddiaeth) yn y "Theater du Mond," 1615. Eu hynafiaeth yn benaf sydd yn rhoddi eu dyddordeb i r llinellau uchod. Bernir mai Pabydd oedd yr awdwr.

T. C. U.

NODYNAU GWASGAROG.

AT UNDODIAID PONTYPRIDD, CWM Y RHONDDA, A'R GYMMYDOGAETH.

Bydded hysbys y cynnelir gwasanaeth crefyddol yn y Town Hall, Pontypridd, dydd Sul, Mehefin y 12fed, 1892, pryd y traddodir pregeth gan y Parch. J. Shaw, Aberdar. Gwasanaeth i ddechreu am 3 o'r gloch yn y prydnawn. Taer erfynir ar bawb cyfeillion Undodaidd fod yn bresenol. Cynnelir cynnadledd ar ddiwedd y cyfarfod.

Y GANWYLL FRWYN.

Hen ganwyll fu yn gweini,—i heuliau
Gwir athrylith godi;
Mae y frwyn yn fam o fri
I linach celf oleuni.—*Meurig Cybi.*

TA-RARA-BWMDI-EY!

Mae yn amlwg fod rhai heddyw wedi blino canu Gwcw gyda'r enwad, ac yn dewis, yn hytrach, i ganu fel mae natur yn galw arnynt. O'r braidd yr oedd y Bedyddiwr enwog, a'r dyngarwr gwresog, Mr. Aked, o Lerpwl, wedi datgan ei fwriad i ddangos eangder ei yspryd brawdgarol trwy bregethu yn mhwlpud ei gyd-drefwr Mr. Armstrong, pan y clywyd taranau esgymundod yn rhuo trwy wersylfaoedd yr enwad. Cynyddodd yr ystorm gymmaint nes gorfuwyd gwneuthur y pwne yn bwnc yr Undeb, ac y pasiwyd pleidlais unfrydol o ffyddlondeb —*i'r enwad.* Ond rhyfedd, pwy oedd yn supportio'r bleidlais gyda'r gwresogrwydd mwyaf ond Mr. Aked ei hunan—yr un Aked yn erbyn yr hwn yr oedd y bleidlais wedi ei bwriadu! Wedi hyny, cawn fod yr esgob, Phillips Brookes, yn helpu i ordeinio Undodwr; a'r Annibynwr enwog, John Hunter o Glasgow yn pregethu yn nghapel Stopford Brooke! Mae'n lwc fod yr Iesu wedi myned oddiar y ffordd, neu buasai'n sicr o gael ei gwrto am gymdeithasu a'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid! Down grade yn wir!!

P. P.

IAWNFFYDDIAETH YR ENWADAU

Y cwbl y gallodd Undeb y Bedyddwyr anturio arno yn eu hymwneyd ag achos Mr. Aked oedd datgan eu ffyddlondeb i'r athrawiaeth o Ddnwdod Crist; ac fel y gwyr darllenwyr yr YMOFYNYDD, nid Duw oedd yr Iesu, ond dyn—a anwyd lai na 2000 o flynyddau yn ol. Os dyn, nid Duw; os Duw, nid dyn Ceisiwyd eangu'r gyffes trwy ddwyn i fewn y Drindod neu Bersonoliaeth yr Yspryd Glan, ond *no go.*

Cheid dim o'r unfrydedd angenrheidiol felly. Un Duw sydd, gyfeillion, fel y dysgir yn yr hen Feibl; ac yr oedd yn bodoli cyn geni Iesu Grist, gan ei fod o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb yr un. Rhyfedd fod neb erioed wedi breuddwydio mai y Creawdwr mawr oedd yr Iesu anwyl—gwr cynnefin a dolur, ac un wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau.

P. P.

I DDYN MEDDW.

Pan oedd yr Awdwr yn myned tu a'r Cwrdd.

Mae'n dywydd teg rhagorol,
A'r Haul fel seren siriol,
A phob peth yn lan ei lun
Ond bywyd dyn annuwiol.
—*Edward Evan* (1716—1798).

GWYL GERDDOROL CEREDIGION.

Cynnelir yr wyl hon eleni ddydd Llun, Mehefin y 13eg, yn Mrondeifi, Llanbedr. Y mae'n arferiad gan Undodiaid y sir hon gynnal dwy gymmanfa ar wahan; ond eleni y mae'r ddwy wedi eu huno yn un, a diamheu na fydd yn fawreddog dros ben, ac y cawn y canu mwyaf gogoneddus a fu erioed yn nghymmydogaeth tref Coleg Dewi Sant.

Cyn fod y rhifyn hwn o'r Ymofynydd wedi dod i law, bydd yr *rehearsal* olaf wedi ei chynnal: gobeithio ei bod wedi troi allan yn dda, ac yn argoeli canu fyddo yn gadael argraff dda ar bawb fyddont yn gwrando, nes cynnyrchu teimlad o ddiolchgarwch i Wrthddrych ein mawl, na fu yn ein meddiannu o'r blaen—un a fyddo yn rhoddi rhyw yspryd o'r newydd yn y cantorion i weithio mwy o blaid canu y cyssegr yn y dyfodol, fel ag i wella a dyrchafu y canu yn yr addoldy y maent yn arfer addoli ynddo, i ganu mwy a'r yspryd yn y dyfodol nag a wnaethpwyd erioed o'r blaen, ac fel y bydd ein Cymmanfa yn ateb y dybenion goreu possibl, ac hefyd yn offeryn nerthol i wasgar yspryd crefydd yr Iesu, fel ag i ddylanwadu ar foesau ac arferion annheilwng a ddichon fod yn bodoli yn ein plith.

Gair etto ar drefniad y capel. Oherwydd llaosogrwydd y cantorion, bydd yr oll o'r llawr yn cael ei feddiannu ganddynt; gan hyny dysgwylir i bawb gwrandawyr gymmeryd eu lleoedd ar y *gallery*. Pe bai hyny yn cael ei hyspysu yn y capeli, efallai na fyddai allan o le. Gan hyny, dymunwn lwyddiant i'r wyl fyned rhag ei blaen.

W. Williams, *Ysgrifenydd*.

AMSER.

Mae amser wedi cludo
Rhyw filoedd maith o'r byd,
'Dyw amser ddim yn segur
Mae yn ei waith o hyd.—*Williams Pantycelyn.*

CYMDEITHAS UNDODIAID SEISNIG CYMRU.

Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas hon yn Merthyr dydd Iau, Ebrill 28. Yn mhlith y sawl oeddynt bresenol yr oedd y Parchn. G. St. Clair, F.G.S., Caerdydd; Ph. Moore, B.A., Caerfyrddin; R. J. Jones, M.A., Aberdar; W. A. Clarke, Abertawe; J. Davies, Allty-placca; Hathren Davies, Cefncoed; Nestor Williams, Merthyr; James Shaw, Aberdar; Fisher Jones, Gellionen; W. J. Phillips, Nottais; W. Parry, Wig; Ifor Davies, Dowlais; D. A. Thomas, Cwmbach; W. Griffiths, Ph.D ,B.D., Abertawe (yr hwn sydd newydd droi oddiwrth yr Annybynwyr, ac yn ddyn ieuanc o alluoedd dysglaer); hefyd y Mri. C. H. Perkins, Abertawe; Lewis N. Williams, Aberdar; T. Thomas a G. L. Thomas, Merthyr; C. Russell James, Merthyr; Christmas Evans, Heolgerryg; D. Eiddil Jones, Cefncoed; J. Jones, Glanynant, ac ereill, luaws o honynt.

Yn y prydnawn pregethodd Mr. St. Clair, yn nghapel Twynrodin, bregeth alluog ac amserol, ac ar ol y gwasanaeth cynnaliwyd cyfarfod er ymdrin â gwahanol faterion perthynol i'r Gymdeithas. Adroddodd yr ysgrifenydd, Mr. Gomer Thomas, fod y swm o £5 15s. 8c. mewn llaw. Etholwyd yn swyddogion am y flwyddyn ddyfodol:—Llywydd, Mr. C. H. Perkins; Ysgrifenyddion, Mr. L. N. Williams, a'r Parch. J. Shaw; Trysorydd, Mr. Gomer Thomas.

Am bump o'r gloch yr oedd te wedi ei barotoi yn Neuadd Miss Davies, gerllaw y Drill Hall, a daeth torf ragorol at ei gilydd. Ar ol y te cynnaliwyd cyfarfod o ganu a siarad. Llywyddwyd gan Mr. T. Thomas, Merthyr, a chymmerwyd rhan gan luaws o gantorion ac o flaenoriaid yr enwad.

CYSUR Y CRISTION WRTH FEDDWL AM FARW.

Mewn gwlad o wynfyd pur a llawn
  Teyrnasa'r saint mewn hoen;
Gwlad bythol ddydd—dim nos na nawn,
  A phleser heb ddim poen.

Byth yno gwena gwanwyn blydd,
  Ni wywa'i blodau mad,
Ond culfor angeu rhyngom sydd
  A'r nefol ddedwydd wlad.

Tu draw mae meusydd eang, llon,
  Yn wyrddlas fyth ac îr,
Fel cynt i Israel hwnt i'r don
  'Roedd bryniau Canaan dir.

Ond chwydd y mor sy'n peri braw
  I bererinion gwan.
Mewn ofn anturio drosto draw,
  Hwy safant ar ei lan.

O! na fai'r holl amheuon prudd,
A'r niwl i gilio bant,
Fel byddai'n glir i lygad ffydd
Y wlad sydd arnom chwant.

Fel Moses gynt, pe rhoid i ni
Drem ar y wlad o draw,
Nid yr Iorddonen ddofn a'i lli
A'n cadwai'n ol mewn braw.

—*Cynnyg ar gyfieithad o Emyn Dr. Watts ar yr un mesur â'r gwreiddiol, ond digon anmherffaith, gan T.T.*

Y PABYDD A'R PROTESTANT.

Mae'n ddigon hyspys beth ydyw yspryd y Protestant cyffredin tuag at y Pabydd; ond rhaid yw myned i wlad babyddol cyn cael deall llwyr beth yw teimlad y Pabydd at y Protestant. 'Does gan y Protestant uniawngred yr un enw rhy gas i alw ar ei frawd pabyddol, a cheir y Pabydd weithiau yn dychwelyd y *compliment*. Meddai Pabydd yn ddiweddar, "Mae gan y Protestaniaid grefydd nad yw yn dda i ddim ond i foch." Ai peth sectarol yw iachawdwriaeth ac anfarwoldeb? Ai dyna y dylent fod? Och i'r culni crefyddol yma, lle bynag y byddo. Mae yn hollol anheilwng o bob Cristionogaeth oleuedig.

P. P.

YMRANIADAETH GREFYDDOL CYMRU.

Y gras mawr iawn o groes ymranu,—yn awr,
Oera grefydd Cymru;
Rhaid cael, i gael y nef gu,—fwy 'sywaeth,
O ddealldwriaeth, a llai o daeru —*Trebor Mai.*

Y Geninen am Ebrill, 1892.

UNDODIAID BOREU.

Addefir heddyw yn fwy nag erioed mai Undodiaeth oedd athrawiaeth yr eglwys Gristionogol ar y dechreu. Aeth rhai canrifoedd heibio cyn dwyn y Drindod i fewn i'r eglwys. Undodiaid oedd yr Iuddewon pan na fyddent yn syrthio i eilunaddoliaeth—Undodiaid, cyffelyb i'r hyn ydynt heddyw. Dadblygiad a gwaith amser oedd Trindodiaeth yn ol Mallock, y Pabydd enwog; dirywiad oedd, meddai Dr. Priestley, oddiwrth symlrwydd Undodiaeth yr eglwysi boreu. Oes rhai o'n pobl ieuainc heddyw yn darllen "Early Corruptions" Dr. Priestley? Chwi blant y rhai a frwydrasant o blaid rhyddymofyniad, beth ydych chwi'n ei wneuthur heddyw i brofi eich bod yn gwerthfawrogi yr etifeddiaeth ardderchog sydd wedi ei gadael i chwi? Galatiaid v. 1.

DADLEUAETH YR YMOFYNYDD.

Ydych chi'n cofio'r ddadl fawr rhwng y Parch. Owen Evans, Cefncoed, a'r Parch. Rees Gwesyn Jones? Rhyfedd fel y mae pethau wedi newid oddiar hyny—oddigerth yn Nghymru. Saif Cymru ar y blaen, yn eithaf *radical* mewn gwleidiadaeth, ond yn eithaf toriaidd yn ei duwinyddiaeth. Pa sawl un o'r profion ddygodd Gwesyn dros y Drindod a Duwdod Crist sydd yn aros yn y cyfieithad diwygiedig o'r Ysgrythyrau? Cofier mai Trindodiaid i gyd, oddigerth un, oedd diwygwyr 1885. Q.Q.

CALVARIA.

Mr. Gol.,—Yr wyf yn ddarllenwr cysson o'r Ymofynydd ac o bryd i bryd yn cael llawer o bleser ac adeiladaeth ynddo. Yr wyf yn cofio darllen un tro ynddo nad oes un sail Ysgrythyrol i'r ymadrodd "*Bryn* Calfaria," nad oes son yn y Test. Newydd am *fryn* yn y cyssylltiad yma. Yr wyf wedi clywed yn ddiweddar nad yw y gair *Calfaria* chwaith yn ysgrythyrol, mai allforiad diweddar ydyw, ac mai *Penglogfa* sydd yn Salesbury a Morgan. Ai gwir hyn? Ai gair pabyddol yw Calfaria? A yw'r gair Calfaria yn y Testament Groeg? At y gair a'r dystiolaeth. Pwy etyb? B.C.D.

Y PRIF ATHRAW LEWIS (BANGOR).

Wrth ddarllen bywgraffiad y Prif athraw Lewis yn *Cymru* am Ebrill, dygodd i'm cof yr ymddiddan diweddaf a gefais gydag ef. Yr oedd hyny ryw chwe' neu wyth mlynedd yn ol ac yn nghymmydogaeth fy nghartref. Yr oedd Lewis a minau yn gydfyfyrwyr yn ngholeg Caerfyrddin. Dywedodd rywbeth tebyg i hyn: Yr oeddwn wedi arfer coleddu meddwl isel iawn am yr Undodiaid. Dyna deimlad y gymmydogaeth y dygwyd fi i fyny ynddi. Nid ystyriai pobl Dihewid fod pobl Ciliau yn werth siarad à hwy ar bynciau crefyddol. Edrychent arnynt fel pobl ffol disynwyr. A thra'n y Coleg yn Nghaerfyrddin parhaodd fy nheimladau yn dra chyffelyb, ac nid oeddwn byth yn cyffwrdd à'r cyfryw bynciau. Erbyn heddyw mae fy meddwl a 'nheimlad yn wahanol iawn. Mae gan yr Undodiaid lawer iawn i ddywedyd dros eu crefydd, ac y mae genyf bob parch iddynt. Nid yw yr uchod yn cyfleu ei eiriau feallai, ond cyfleant ei yspryd. Teg yw dywedyd na ddywedodd e ddim pa mor bell yr oedd yn cytuno a'r Undodiaid.
Ebrill 27n. J. D.

Y NOS.

Hynaws leni y Nos lonydd,—dynwyd
Am danom yn gelfydd;
A bronau yr wybrenydd
Gain olau'n llusernau sydd.
—*Thomas Evans (Telynog)* 1840—1865.

AR OL SYCHDER, GWLAW.

Gwelid, a'r haul ar giliaw—yn ael dydd,
Y niwl dwl yn chwyddaw,
Yr hyn, dan glogyn y gwlaw.
Ddysgwylid i ddwys geulaw.

Ond, gyda'r gwynt, hynt roes 'e,—er y bâr*
Heb wyro at unlle;
Chwalu wnaeth, drwy'r uchel ne',—
Bro niwl droe'n wybren ole.

Yna a'i wen, yr haul noeth—ar ei daith
Yr un mor dwym dranoeth;
Uwch Albion,† aeth mor chwilboeth,
Ar ein pau a haiarn poeth.

Ond, O, fendith! gwlith a gwlaw—ireiddiol
A roddwyd i'w mwydaw;
Duw anian, i'w dihunaw,
Yra'i lef—agorai'i law.

Ymarllwys a wnai'r mwrllwch—yn ddylif
Ar ddol ac anialwch;
A phob bryn noeth, tryboeth trwch,‡
A gweirddol wisgai harddwch.

Yn hawdd yr adnewyddwyd—y ddaear,
Oedd wyw a gwyneblwyd,
A gwlaw y dwr—gludeiriwyd
Yn mol llaith y cwmwl llwyd.

Bu hwn yn gwibio enyd—ar y wybr,
A'i wedd yn gymysglyd;
Bygythiai, heriai o hyd
Y croenllwm fryniau crinllyd.

Ond yn ol—nid dan wylaw,—yr elai
Ar ol ein hir feiddiaw;
Nes cael, heb un naws ciliaw,
Doi y glyn, gan Dad y gwlaw.

A chodai'r ddaear sychedig—o'i gloes
A'r glaswellt methedig;
A holl adar y war wig
I gyd wau drwy y goedwig.

I anifeiliaid yn filoedd—y daeth
Bendithion Duw'r lluoedd;
O wel'd dwr, ar ael tiroedd,
Yn ffrwd wyllt—cyffroad oedd.

---

* Calamity. † Hen enw Prydain. ‡ Anffodus.

Adnewyddid adnoddau—olynol,
A'r gwlaw lanwai'r llynau ;§
Pob ffrwd fach, o gilfach gau,
Yn rhuo drwy ein rhiwiau.

Dwys gynwr' llawn, disgynai'r lli—cy-
Fel cwmwl yn hollti ; [mwys
Treiddiodd y briddell trwyddi,
Gyrodd ddwr at ei gwraidd hi.
—*Caledfryn*, 1869.

§ Salm lxxxiv. 6.

Manion ac Hanesion.

Y Cyfarfodydd Blynyddol.—O herwydd na ddaw Capel Alltyplacca yn barod erbyn yr amser appwyntiedig, rhaid gohirio'r uchod am ychydig. Ceir y manylion yn y rhifyn nesaf.—*John Davies.*

Cwmbach.—Cynnaliodd yr eglwys hon ei gwyl dê flynyddol ar y 23ain o Fai. Gwerthwyd nifer lluosog o dicedau, a throdd y tê yn yr hwyr yn llwyddiant hollol.

St. Clears.—Drwg genyf hyspysu darllenwyr yr Ymofynydd fod yr achos Undodaidd yn y lle uchod wedi marw, ac mewn canlyniad nid oes un gwasanaeth yn cael ei gynnal yno yn bresenol. Nid ydyw Rhydyparc wedi ei gau etto : ond os na thyr gwell gwawr yn fuan, yr un fydd ei dynghed yntau. Ai dyma ydyw ffrwyth llafur yr Undodiaid ?—T. A. T.

Pontypridd. — Mae Undodiaid Cwm Rhondda—ac y maent yn llawer—wedi penderfynu cychwyn achos yn y lle poblog hwn ; a syn yw dweyd, ebai un newyddiadur, wrth gofnodi'r ffaith, fod cyfarfod cyntaf yr Undodiaid i gael ei gynnal ar Sul y Drindod, yr hwn a ddisgyn ar y 12fed o Fehefin. Llwyddiant mawr i'r mudiad.

Cefn Coed.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol y capel hwn ar yr ail o Fai. pryd y trodd pobpeth allan yn ddymunol dros ben. Yn yr hwyr cafwyd *rehearsal*, ac arweiniwyd yn odidog gan yr arweinydd am y flwyddyn—Mr D. Davies, Gellionen.

Marwgofion.

Chwefror 1, Jno. Rees, Penewarre, Llandyssul. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn Pantdefaid, y pryd a'r lle y gweinyddodd y Parch. T. T. Yr oedd yr ymadawedig yn 35 oed, ac am y tair blynedd diweddaf bu yn gwaelu yn raddol o'r ddarfodedigaeth. Gadawodd weddw a dau o blant ieuainc i alaru ar ei ol. Bydded y Tad Mawr yn nerth a noddfa iddynt yn nghanol eu holl drafferthion.

Chwefror 23, yn 42 oed, bu farw Margaret Evans, Ffynnonlewelyn, Llandyssul. Gadawodd briod hawddgar a deg o blant—rhai o honynt yn ieuainc iawn—mewn hiraeth dwys ar ol un mor ddiwyd a gofalus er gwaeled ei hiechyd er ys llawer o flynyddau. Y dydd Gwener canlynol daeth torf fawr o bobl o bell ac agos i'w hangladd. Yn y ty annedd darllenodd a gweddiodd y Parch. Mr. Jenkins, Periglor y plwyf, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Jones, y curad. Claddwyd hi yn Pantdefaid, lle yr oedd llawer iawn o berthynasau wedi ei blaenu. Pregethodd y Parch. T. T. yn y capel, a gweddiodd ar lan y bedd. Duw yn ei ragluniaeth fyddo'n dirion a thrugarog tuag at ei phriod a'i phlant yn eu hamddifadrwydd presenol.

Chwefror 26, yn nhy ei nai, Dremddufawr-Silian, yn 86 mlwydd oed, Mary

Thomas, Aberaeron. Un enedigol o blwyf Ystrad. Aeth i fyw i Aberaeron lawer o flynyddau yn ol, lle yr ennillodd iddi ei hunan air da am ei gonestrwydd a'i geirwiredd, a pherchid hi yn gyffredinol gan bawb trwy y lle, er ei bod yn Undodwraig selog, neu yn Sosin fel c'ai ei galw; ac adnabyddid hi wrth yr enw Mary Sosin yn yr ardal. Ond nid oedd Mary yn hidio fawr am hyny; nid oedd yn ei ystyried yn un iselhad ar ei chymmeriad, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Bu mewn llawer dadl boeth ar wahanol bynciau crefyddol. Yr oedd yn dwyn mawr sel dros ei syniadau, ond nid heb wybodaeth. Yr oedd yn ofynol i'w gwrthwynebydd fod yn ofalus, a gweddol hyddysg yn yr Ysgrythyrau, neu byddai yn lled debyg o gael ergyd go drwm cyn terfynu y ddadl. Meddai ar gof rhagorol a sylw craffus. Adnabyddai bob un o weinidogion yr Undodiaid, ac nid oedd un cwrdd blynyddol na chwrdd cwarter nad oedd hi yno os gallai mewn rhyw ffordd ei gyrhaedd. Ond nid oedd hi, fel mae rhai, yn cadw cwrdd chwarter ac yn esgeuluso yr addoliad ar y Sabboth. Yr oedd yn dyfod yn rheolaidd o Aberaeron i Ciliau ar y Sul, agos i bum' milldir o ffordd, hyd nes cafodd anffawd un Sabboth wrth gloi y drws i gael d'od i'r cwrdd fel arfer. Syrthiodd dros y grisiau, lle y bu am amser yn ddideimlad, ac wedi ei chario i'r ty. Ni fu yn alluog i aros yn ei thy ei hunan ar ol hyny. Bu ei nai mor garedig a'i nhol i'w dy, lle y cafodd bob tynerwch tra bu byw. Yr oedd er's llawer blwyddyn wedi rhoddi gorchymyn i'w chladdu yn Rhydygwin, lle bu yn aelod am lawer o amser cyn iddi symmud o'r gymmydogaeth. Ni fu yn briod erioed, a gweithiodd yn galed i ennill bywioliaeth. Ar ddydd yr angladd daeth torf yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn mynwent Rhydygwin, yn ol ei dymuniad. Cyn cychwyn o'r ty gweinyddwyd gan Mr. Morris, offeiriad Silian, a W. Rees, Rhydygwin, ac yn y capel ac wrth y bedd gan R. C. Jones, Llanbedr. Huna mewn heddwch!

Chwefror 28, yn 82 oed, bu farw Elizabeth Thomas, *Three Cocks*, Pantdefaid. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn mynwent y capel yn ymyl, a phregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Bydded i'r plant, dau fab a dwy ferch, fod yn ddiolchgar am gael ei bendithyg cyhyd.

Mawrth 5, yn 79 oed, bu farw David Joshua, Penrhiw, Pantgwyn. Yr oedd yr ymadawedig yn wael ei iechyd er ys blynyddau, a bywyd braidd wedi myned yn fwy o boen nag o bleser. Claddwyd ef Llun ar ol ei farwolaeth yn Pantdefaid. Pregethodd y gweinidog yn y capel, ac aeth trwy y gwasanaeth arferol ar lan y bedd. Gadawodd weddw oedranus mewn unigedd a galar ar ei ol, yn nghyd â mab a merch.

Mawrth 12, David Jones, Pantygwybed, Llandyssul, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 85 o flynyddau. Hebryngwyd ef i'w gladdu yn Mhantdefaid y dydd Mawrth canlynol, a bu y Parch. W. J. Davies mor garedig a gweinyddu ar yr achlysur, yn absenoldeb anocheladwy gweinidog y lle. Gadawodd weddw oedranus yn nghyd â thair merch.

Mawrth 20, o'r *scarlet fever*, Joshua Davies, anwyl faban Mr. a Mrs. Davies, Coedpenmain, Pontypridd, yn 14 mis oed. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn *Cemetery* Glyntaf, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Ifor Davies, Dowlais.

I hardd drigfan nef-fabanod
Aethost di'n llon angel bach;
Pa deganau, wys, sydd yno
Lonant eich calonau iach?

Beth yw'r baban-wersi, tybed,
Gan y Bugail y'ch chwi'n gael?
Beth yw'r wobr? ai'ch cusanu
A'ch bendithio bob yn ail?

Ebrill 11, yn 17 oed, wedi nychdod maith, bu farw Rachel, anwyl ferch Evan ac Elizabeth Williams, Llanwnen. Tyfai i fyny yn ferch brydferth a gobeithiol hyd nes gafaelodd y ddarfodedigaeth ynddi, ac yna, er pob ymdrech feddygol, a gofal a thynerwch tad a mam, yr eneth ieuanc brydweddol a syrthiodd, ac fel blodeuyn a wywodd. Claddwyd hi yn Nghapelygroes y dydd Iau canlynol. Dechreuwyd y gwasanaeth angladdol yn y capel gan y Parch. David Evans, Cribin, a phregethodd y gweinidog, a gweddiodd ar lan y bedd.

Ebrill 13, yn 42 mlwydd oed, John Jones, Luzerne Co., U.S.A. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanwnen, Sir Aberteifi, a mab ydoedd i Jaci Crydd, Ty'ncelyn, fel yr adnabuid ei dad yn gyffredin yn ei ardal. Asiedydd (*joiner*) oedd yr ymadawedig o ran ei alwedigaeth, a bu yn gweithio yn Aberdar am yspaid hir. Ymbriododdâ merch Jenkin a Margaret Llewelyn, Pantysgawen, ger Trecynon, Aberdar. Ymfudodd ef a'i deulu i'r Amerig er ys tua deng mlynedd yn ol. Diamheu fod teiml-

adau rhieni, perthynasau a chyfeillion yn ddrylliog ar ran y weddw a'i phedwar anwyliaid yn yr amgylchiad trist hwn ; ond etto bydded iddynt gofio'r addewid fod Cysurwr y weddw a Thad yr amddifaid etto y tu cefn i bob peth—nid yn weledig, etto yn bresenol; nid annhrugarog, ond yn llawn tadoldeb. Felly na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith. Yr oedd yr ymadawedig o rodiad cywir a difrycheulyd, ac yn briod gofalus a thad tyner. Yr oedd yn Undodwr di-droi-yn-ol. Felly y mae wedi dianc rhag trafferthion y byd hwn i wynfyd bythol a digyfnewid ein Tad ni a Thad Iesu Grist, ein brawd hynaf. Nerth y Tad fyddo gyda'r weddw i ddwyn i fyny ei hamddifaid yn llwybr y goleuni, fel y byddont etto yn ddedwyddwch a chysur i'w hanwyl fam wedi iddynt dyfu i fyny.— D. O. E., *Merthyr.*

Ebrill 14, yn 77 oed, bu farw Daniel Evans, Penrhiw, Rhydybannau, Ystrad. Claddwyd ef yn Nghapelygroes dydd Llun y 18. Pregethwyd yn y capel gan y gweinidog, T. T. Dyn diniwed iawn meddai pawb oedd Daniel. Na alared ei blant yn ormodol ar ei ol.

Ebrill 15, yn 4 blwydd oed, bu farw Edward Victor, mab James Lewis, Heddgeidwad, Ceinewydd, a'i wraig Elizabeth. Claddwyd y bychan yn Nghapelygroes y dydd Mawrth canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies, yn y ty annedd yn y Ceinewydd, a chan y Parch. T. T. yn y capel ac ar lan y bedd.

" Aeth diniweidrwydd at ei Dduw
Dros fyth i fyw 'n ei burdeb."

Ebrill 27, bu farw Daniel, mab John Lloyd, Pantywilco. Yr oedd yr ymadawedig yn siopwr yn Abertawe er ys rhai blynyddau, ac wedi cyrhaedd 25 oed. Yr oedd yn ddyn ieuanc o fywyd dichlynaidd, yn gymmeradwy yn ei alwedigaeth, ac yn barchus gan bawb a'i hadwaenent. Yr oedd ei ddyfodol yn ddysglaer yn marn ei gyfeillion, ond ei haul a aeth i lawr yn nghanol ei ogoniant. Mae ei dad a'i unig chwaer mewn galar dwys ar ei ol, ond bydded iddynt alaru'n gymedrol ac mewn gobaith. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Capelygroes. Pregethwyd yn y capel gan y gweinidog. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans, Cribin.

Ebrill 29, yn nhy ei merch yn Meirion Street, Aberdar, Susannah, gwraig Henry Edwards, gynt o'r Cwmbach, ond yn awr yn America, yn 66 oed. Claddwyd yn y Cemetery, R. J. J. yn gwasanaethu.

Ebrill 29, Gwendolene, merch Mr. a Mrs. Watkins, 60, Dean Street, Aberdar, yn naw mis oed. Claddwyd dydd Llun, Mr. Jones yn gwasanaethu.

" 'Roedd angel yn ei hangladd hi,
Fe ddaeth o gwmwl draw ;
Fe glodd y bedd, ehedodd fry,
A'r allwedd yn ei law."—*Islwyn.*

Ebrill 29, yn 29 mlwydd oed, Hannah, anwyl ferch Evan a Rachel Evans, Ddolwenfach, Llanwenog. Claddwyd hi yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Aberduar, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca.

Ebrill 30, yn 23 mlwydd oed, Lizzie Jones, Merthyr, ond gynt o Gefn Coed. Wyres oedd yr ymadawedig i'r diweddar John a Catherine Williams, Post Office, Cefn Coed ; a chyda'i thaid a'i nain y cafodd Lizzie Jones ei dwyn i fyny hyd nes y buont hwy farw ac y chwalwyd y nyth, pryd yr aeth i Ferthyr i wasanaethu mewn siop yno Yr oedd yn ferch ieuanc o rodiad rhagorol, ac yn anwyl gan bawb a'i hadwaenent. Er yn blentyn arferai gyrchu i'r Hen Dy Cwrdd, lle yr oedd, fel ei thadcu a'i mamgu o'i blaen, yn aelod ffyddlon. Cystudd byr gafodd, ond yr oedd yn gystudd poenus i bob ymddangosiad. Gafaelwyd ynddi gan y *brain fever*, a buan y syrthiodd yn ysglyfaeth iddi. Bu farw yn nhy ei hewythr, Mr. Dan. Williams, yn Merthyr, lle y gwnaed yr oll ag oedd yn ddichonadwy i geraint hoff ei wneyd er arbed ei bywyd. Y dydd Mawrth dylynol claddwyd ei chorff yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Nodded y Nefoedd fyddo ar y fam a'r perthynasau oll yn eu galar dwys.

Mai 13, Mary, gwraig Thomas Davies, saer maen, Golden Lion, Hirwaun, Aberdar, gynt o Lanybyther, yn 44 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. R. J., ac yn y Cemetery gan y Parch. William Rhydderch (offeiriad). Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i'r Parch. Evan Jones, B.D., Rheithor Trefdraeth, yn Sir Benfro.

"Oh ! nid oes nos mor dywyll nac mor faith
Heb fore cu i dori ar y daith."

Jenkin Howell. Argraffydd, &c., Aberdar.